Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Proses Salmon – Cwestiynau Cyffredin

## Beth yw'r broses Salmon a pham rydym yn ei chymhwyso?

Daw enw'r broses Salmon oddi wrth yr Arglwydd Ustus Salmon, a osododd egwyddorion Salmon am y tro cyntaf yn 1966. Mae'r egwyddorion yn berthnasol i gyhoeddi adroddiadau o ymchwiliadau cyhoeddus a phrosesau statudol eraill lle mae unigolion a/neu sefydliadau'n cael eu beirniadu.

Gan y gallai adroddiad ymchwiliadau Hillsborough gynnwys gwybodaeth sy'n gyfystyr â beirniadaeth o rai unigolion a sefydliadau (plismona a rhai nad ydynt yn blismona), rydym wedi dewis cymhwyso'r broses hon, ac mae'r egwyddorion yn pennu y dylid rhoi cyfle i bob unigolyn neu gorff sy'n wynebu beirniadaeth ymateb cyn cyhoeddi.

Mae egwyddorion y broses Salmon wedi'u cymhwyso i nifer o ymchwiliadau ar draws SAYH. Gan mai ein hymchwiliad Hillsborough yw'r mwyaf i mewn i gamymddwyn a throseddoldeb honedig yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi ceisio cyngor gan gyrff ac unigolion sydd wedi bod yn rhan o ymchwiliadau proffil uchel diweddar i sicrhau arfer gorau.

## Pryd fydd y broses yn dechrau a pha mor hir y bydd yn ei chymryd?

Disgwylir i'r broses Salmon ddechrau yn gynnar yn 2023, sy'n golygu y byddwn yn dechrau anfon hysbysiadau fesul cam at y rhai rydym yn bwriadu eu beirniadu. Mae mwy na 2,300 o unigolion a/neu sefydliadau yn rhan o'n hymchwiliad ond dim ond rhai o'r rhain fydd yn rhan o'r broses Salmon.

Dim ond y rhai rydym yn bwriadu eu henwi a'u beirniadu yn ein hadroddiad ymchwiliad Hillsborough fydd yn rhan o'r broses hon, ac mae'r modd rydym yn adnabod yr unigolion a'r sefydliadau hynny yn cael ei adolygu'n gyson.

Oherwydd maint sylweddol y dasg hon, ni allwn rag-weld yn union pa mor hir y bydd y broses yn ei cymryd i'w chwblhau, ond byddwn yn darparu diweddariadau cynnydd pan fyddwn yn gallu gwneud hynny.

## Sut fyddwch chi'n hysbysu'r rhai sy'n cael eu beirniadu?

Bydd yr unigolion a'r sefydliadau rydym yn bwriadu eu beirniadu yn adroddiad ymchwiliadau Hillsborough yn derbyn 'Llythyr Salmon', sy'n egluro'r broses, yn rhoi crynodeb o'r beirniadaethau arfaethedig a wnaed, ac yn gofyn os ydynt yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau i ni am y beirniadaethau rydym yn bwriadu eu cyhoeddi.

## Pa mor hir sydd gan unigolyn i ymateb?

Bydd gan unigolyn neu sefydliad 28 diwrnod o'r dyddiad a ysgrifennwyd ar y llythyr i ymateb. Gellir gwneud ceisiadau i ymestyn yr amser ymateb i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau Hillsborough, Sarah Green, i'w hystyried.

Rydym yn dibynnu ar eraill sy'n ymwneud â'r broses i ymateb mewn modd amserol. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y broses yn rhedeg mor esmwyth â phosibl tra'n cynnig amser rhesymol i bobl ymateb.

## Beth os nad yw rhywun yn ymateb?

Dewis unigolyn neu sefydliad yw a ydynt yn ymateb i hysbysiad. rydym yn bwriadu ei feirniadu yn adroddiad yr ymchwiliad. Os byddant yn ymateb ar ôl yr amser a neilltuwyd iddynt, mae'n annhebygol y bydd eu hymatebion yn cael eu hystyried.

## Beth sy’n digwydd i ymateb rhywun?

Unwaith y bydd unigolion a sefydliadau wedi cael cyfle i ystyried unrhyw feirniadaeth arfaethedig, gallant wedyn ymateb i’r penderfynwr Hillsborough a fydd yn penderfynu pa gamau—os o gwbl—i’w cymryd. Gall hyn gynnwys os oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i adroddiad yr ymchwiliad neu os dylai’r ymatebion gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiad.

## Onid yw pobl eisoes yn ymwybodol eu bod wedi cael eu beirniadu?

Rhoddwyd gwybod i nifer o gyn-swyddogion am feirniadaeth arfaethedig a chawsant y  cyfle i ymateb yn gynharach yn ein hymchwiliadau, ar ôl cael hysbysiad ffurfiol, wedi cael eu cyfweld fel gwrthrych neu dyst, neu wedi cael llythyr yn flaenorol.

Rydym yn cymhwyso egwyddorion Salmon i gynnwys y rhai y cyflwynwyd hysbysiad iddynt yn flaenorol eu bod yn cael eu hymchwilio am gamau a allai fod yn gyfystyr â chamymddwyn neu droseddoldeb honedig. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch y beirniadaethau arfaethedig rydym yn bwriadu eu cyhoeddi.

## A all rhywun apelio yn erbyn dyfarniad y penderfynwr?

Na. Nid oes cyfle i apelio yn erbyn penderfyniad. Mae'n rhaid gwneud unrhyw sylwadau yn ystod yr amser a neilltuwyd yn y ‘Llythyr Salmon’ neu y cytunir arno fel arall â SAYH.